

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 2

Key Language

Galla i
Allai i ddim
Fydd rhaid i fi ...

New words

cwyno	-	to complain
aelodaeth	-	membership
yn brydlon	-	on time
ymestyn	-	to stretch
sbel	-	a while
ysgwydd	-	shoulder
clywed ogla (NW)	-	to smell
anadl	-	breath
para	-	to last
hirach	-	longer
ar werth	-	on sale
yn llonydd	-	still
siwrne	-	journey
cloi	-	to lock
awyr iach	-	fresh air
bwriadu	-	to intend
palmant	-	pavement
canolbwyntio	-	to concentrate
mynnu	-	to insist

Main grammatical points

Features of conversational Welsh

One of the features of conversational Welsh is the way that syllables at the beginning and end of words tend to be lost. Take the present tense of the verb to be.

Dw i, Wi and even Fi are heard for example – Dw i'n mynd (North Wales)
Wi'n mynd or Fi'n Mynd (South Wales)
Ti'n hoffi

Mae is often shortened to Ma – Ma fe'n mynd
Dy ni - Dan ni in (North Wales)
Dych chi – Dach chi
Ma'n nhw.

Does dim becomes sdim – Sdim pwynt;

Short form of Gallu

You are probably know the form rydw i'n gallu – I can or I'm able to
Dw i ddim yn gallu – I can't.

The equivalent form using the short form of gallu is Galla i or the negative form Allai i ddim

Alla i ddim ffeindio braich y nghot i - I can't find the arm of my coat

Alla i ddim ei ffeindio hi - I can't find it

Alla i ddim gwneid dim byd – I can't do anything.

The full form of gallu using the short form is:

Alla i

Alli di

Alliff e/Alliff hi in South Wales

Allith o/Allith hi in North Wales

Allwn ni

Allwch chi

Allan nhw

Fydd rhaid i fi

Mae rhaid i fi - I must

Allai i ddim - I will have to

Fydd rhaid i fi gwyno - I will have to complain

Fydd rhaid imi fynd - I will have to go

Expressions

Ble yn y byd mawr? - Literally - Where in the big world? - Where on earth?

Welsh has a few forms for woman:

In North Wales the word commonly used for woman is dynas.

The other forms that you will hear are menyw and gwraig

Gwraig can also mean wife.

Ogla comes from the word arogl meaning smell

Notice that the verb with ogla is clywed – literally to hear a smell.

In South Wales the form is gwynt

Mae gwynt drwg yma – there's a nasty smell here.

Ysbyty Brynaber: Episode 4

Arwyn and Jenny are waiting for the emergency service to arrive following their tyre blow out. He is in a foul mood.

Dic – the young doctor is in the local pub – it's full of students – and he bumps into Wendy the young nurse whom he met at the hospital.

Arwyn is getting more and more agitated.

Geirfa

Ble yn y byd mawr?	-	Where on earth?
cwyno	-	to complain
aelodaeth	-	membership
yn brydlon	-	on time
ymestyn	-	to stretch

Golygfa 1

Arwyn - Ble yn y byd mawr ma'r boi AA 'ma? Ble yn y byd mawr mae e? E? Ddyle fe fod yma erbyn hyn. Yffach gols.

Jenny - Mae o'n siwr o ddod...

Arwyn - Siwr o ddod? Hy! Siwr o ddod wir! Pryd?

Jenny - Arwyn, plis. Sdim pwynt i ti weiddi arna i. Alla i ddim g'neud dim byd am y peth...

Arwyn - Fydd rhaid i fi gwyno. Wy'n talu'n nhal aelodeth yn brydlon. Yr ugeinfed o Ragfyr pob blwyddyn. Standing order. Ar y dot. Mae arian o'r banc yn mynd ma's i'r AA.

Jenny - Dw i'n gwbod.

Arwyn - Ond o's pwynt? Ti a fi wedi disgwyl nawr am – faint?

Jenny - Hanner awr a mwy....

Arwyn - Hanner awr a mwy? Mwy o lawer. Dros dri chwarter awr. A wy'n dweud wrthot ti, fydd hi'n hanner awr cyn i ni gyrraedd nol gartre nawr. Heb os... Jenny? ble wyt ti'n mynd?

Jenny - I ymestyn fy nghoese'. Dw i'n stiff. Dw i 'di ista digon ar yr awyren yna'n barod...

Arwyn - Gwylia gael dy fwrw i lawr. Mae'r traffig yn drwm... Helo? Mam...? Beth? Sori, rhaid ichi siarad lan...Na, sdim llawer o signal 'ma ...Beth? Pryd cyrhaeddod ni nôl?...Rhyw ddwy awr nol...Ah-uh...Na – wnewch chi ddim credu hyn ond ni wedi cael pyncjar...Wel ydw wrth gwrs bo' fi...Wy'n yffernol o grac a gweud y lleia...Na, ddim 'to...Naddo...Ond ni wedi ffonio yr AA ddwywaith yn barod...Do, amser da fel arall...Wrth y'n bodde...Y pasports? Yn y ces wrth gwrs...Jenny oedd wedi'u paco nhw heb feddwl...Fel'na mae hi ynte?

Jenny - Arwyn, mae'r AA newydd gyrraedd...!

Arwyn - Hei, well i fi fynd, mam...Ma'r dyn AA newydd gyrraedd...

Jenny - Ddim dyn ydi o. Ond dynes...

Golygfa 2

Dic - Oi! Pedro! Oi! Beth mae rhaid i fi 'neud i gael drinc yn y lle 'ma? Canu am ei beint neu beth?

Neu ddanso ar ben y byrdde?

Wendy - Hey! Do you mind!

Dic - Sori...

W Wendy - Stamping on my foot...

Dic - 'Ddrwg 'da fi...

Wendy - I should think so too. Like a bloody elephant...

Dic - Hei! Ni'n cwrdd unwaith 'to...

Wendy - What?

Dic - Ti a fi. We meet again...In the hospital canteen – remember?

Wendy - Yeah, yeah –

Dic - Packed 'ma. Ydy hi mor llawn a hyn ma' fel arfer?

Wendy - Usually is. Especially ar y weekend.

Dic - Pob penwnthnos?

Wendy - Term time. A mae hi'n wsnos y Glas. Freshers Week. There's a group playing up in the Union tonight.....
 Dic - Pa grwp 'te?
 Wendy - Can you move a bit? That student behind you is trying to edge in by the corner there...
 Sori, oeddet ti'n deud rhywbeth?
 Dic - Nes ti ddim dweud dy enw wrtho i'n y cantin...?
 Wendy - Yeah, I did.....
 Dic - Do? O, reit...
 Wendy - Ti ddim yn cofio?
 Dic - Wrth gwrs bo' fi. O.K. Paid a dweud wrtho i...bydda i'n cofio nawr...Yyyy...
 Wendy - Come on then...Beth yw e?
 Dic - Lisa?
 Wendy - Lisa ydy fy ffrind i...
 Dic - A! Wy'n cofio nawr...Ffion, ontefe?
 Wendy - Na.
 Dic - Ffiona? Fflur 'te?
 Wendy - Ti jyst yn gesio rwan...
 Dic - Rhywbeth 'da 'ff'...Ydw i'n iawn?
 Wendy - Hey! Pedro's looking at you, Dic...Your turn. Get in fast or you might miss out on your pint again...
 Dic - Ti isie rhywbeth?
 Wendy - Wy mewn rownd 'da'r nyrsus...
 Dic - Sdim ots. Be ti isie? Dwed...
 Wendy - Dere peint o lagyr top i fi 'te.

Ysbyty Brynaber: Episode 5

Arwyn and Jenny are nearing the end of their journey. Jenny asks Arwyn to let her drive as she's concerned about the amount he drank on the plane. Arwyn ignores her pleas.

It's last orders at the pub and Dic is really enjoying himself. He really doesn't want to walk all the way home

We join Jenny and Arwyn as Jenny awakes from a snooze.

Geirfa

sbwl	-	a while
ysgwydd	-	shoulder
clywed ogle (NW)	-	to smell
anadl	-	breath
para	-	to last
hirach	-	longer
ar werth	-	on sale

Golygfa 1

Jenny - O, Mam bach! Am faint dw i wedi bod yn cysgu?
Arwyn - Sbwll fach...
Jenny - Stiff i gyd...O, ma'n ysgwydd i'n brifo! O, lle ydan ni rwan?
Arwyn - Dyn ni newydd basio trwy Llangurig...
Jenny - Llangurig?
Arwyn - Ah-uh.
Jenny - Ddim lot i fynd eto...Capal Curig...Capal Bangor...Llanbadarn. A bingo! Byddwn ni adra.
Arwyn - 'Dwi'n teimlo lot gwell ar ol cysgu...
Jenny - Arwyn, gad i fi ddreifio...
Arwyn - Wy'n iawn...
Jenny - Dw i ddim yn meddwl fod ti...
Arwyn - Wy'n iawn...
Jenny - Gad i mi ddreifio, plis...?
Arwyn - Na. Dw i'n iawn...
Jenny - Na, ti ddim....Dw i'n siwr fod ti wedi blino...
Arwyn - Yffach gols! Dw i ddim wedi blino...reit?
Jenny - A gest ti bedwar gin an' tonic ar yr awyren, cofia.
Arwyn - Jyst paid a mynd mlaen am y peth – O.K.?
Jenny - Oedd y ddynas AA 'na wedi clywed ogle diod ar dy wynt di...Ac roedd hi'n poeni fod ti wedi bod yn yfed ac yn meddwl dreifio...
Arwyn - Ddyle'r fenyw AA fod wedi becho am gyrredd ni'n gynt yn lle becho am wynt cwrw ar y'n anadl i...
Jenny - Dydi o ddim yn beth call i 'neud. Yfad a gyrru...
Arwyn - Jyst cer nol i gysgu, nei di?

Golygfa 2

Dic - Hei! Maen nhw'n newydd stopio serfio...
Wendy - Yn barod?
Dic - Lwc i fi gael y rownd ddwetha 'na i mewn...
Wendy - God! What's this? A trebler or what?
Dic - Achos bod hi'n stop tap, bydd e'n para'n hirach...
Wendy - 'Para'n hirach?' What?
Dic - It'll last longer...Para'n hirach.
Wendy - Para'n hirach? Last longer? In yer dreams, pal. Ddim o'r ffordd ti a fi wedi bod yn yfed heno...
Dic - Wyt ti'n gweithio 'fory?
Wendy - God! Fi? Gweithio? Na! No way! Wyt ti?

Dic - Odw. Wy fod i fewn am wyth y bore...

Wendy - Wyth y bore?

Dic - Dim problem.

Wendy - Stamina or what?

Dic - A wy byth yn rhoi cloc larwm mlaen chwaith. Dim ots pa mor hwyr, na pa mor pissed wy'n mynd i'r gwely, wy bob amser yn deffro pan wy fod i 'neud... Dim problem.

Wendy - Oh, yeah, I bet.

Dic - O.K. - bet?

Wendy - Fyddet ti'n gneud cloc larwm brilliant i fi. Wyt ti ar werth?

Dic - Ar gyflog nyrs? Dim gobaith...

Wendy - Pam ti'n dweud hynny?

Dic - Wy lot yn rhy ddrud i ti, Wend...

Wendy - We could have a whip round in the hostel...

Dic - Ti'n lico byw lan 'na?

Wendy - Mae o'n O.K.

Dic - Jyst O.K.?

Wendy - Ma' tair – tri ffrind i fi - yn chwilio am ty i lawr yn y dre...Ond we haven't had much luck up to now.....

Dic - Pam? Rhy brysur yn joio'ch hunan?

Wendy - 'Dan ni'n trio ein gora.

Dic - Ma' isie...Sori.

Wendy - But we're not in the same league as you doctors.

Dic - Ti'n meddwl alla i gael peint arall cyn i Pedro a Ninny gau'r bar?

Wendy - Is the word 'enough' in your dictionary, Dic?

Ysbyty Brynaber: Episode 6

Arwyn and Jenny are within 3 miles of home. Wendy and Dic are staggering out of the pub. Dic is rather the worse for wear and insists on flagging down cars in order to get a lift home.

Geirfa

yn llonydd	-	still
siwrne	-	journey
cloi	-	to lock
awyr iach	-	fresh air
bwriadu	-	to intend
palmant	-	pavement
hewl (SW)	-	road
canolbwyntio	-	to concentrate
mynnu	-	to insist

Golygfa 1

Wendy - Beth ti'n 'wneud, dwed...?
Dic - Alla i ddim...Alla i ddim ffeindo braich y blwmin got 'ma...
Wendy - Gad i fi helpu...
Dic - Ble mae hi...Alla i ddim ei ffeindo hi...
Wendy - Aros yn llonydd 'ta...
Dic - Beth yw'r joc nawr to?
Wendy - Sdim rhyfedd bo' ti methu ffendio'r fraich...You idiot...
Dic - Pam? Beth sy'...?
Wendy - Cot rhywun arall ydi hi...
Dic - Be?
Wendy - Ma' hi lot rhy fach i ti...

Golygfa 2

Arwyn - Wel, haleliwia, weda i! Dim ond tair milltir arall i fynd...a wedyn...
Jenny - Byddwn ni'n gyrru i fyny'r dreif...
Arwyn - Agor y drws ffrynt...
Jenny - A ti a fi nôl adre...
Arwyn - Am siwrne a hanner!
Jenny - A cerdded trwy'r holl lythyrau fydd wrth y drws ffrynt...
Arwyn - Ie, siwr o fod. Jync mail. Free ads. Freebies. A'r rybish sy'n dod i dy rhywun y dyddiau hyn...
Jenny - Ti'n gwybod be?
Arwyn - Beth?
Jenny - Dwi jyst yn edrych ymlaen i gael panad o de a mynd yn syth i ngwely...
Arwyn - Sdim rhaid i ni 'neud dim byd heno. Wy'n meddwl gadel y cesus yn y car a cloi'r car yn y garej...
Jenny - Arwyn? Ti'n meindio...?
Arwyn - E?
Jenny - Y ffenest? Nei di ei chau hi? Dw i'n oer...
Arwyn - Wel, wy ddim. A wy isie awyr iach – o'r gore?
Jenny - Pam ti'n mynnu cael dy ffordd dy hun o hyd?

Golygfa 3

Dic - Dw i ddim yn bwriadu cerdded i dop y tyle 'na, no way!
Wendy - Tyle? Oh, hill you mean. You'll have to. Sdim bysus o gwmpas heno...
Dic - Ddim bus?
Wendy - Na.
Dic - Dim problem. Beth am dacsu 'te? Ma' un yn bownd o fod yn rhywle...Beth ti'n ddweud?
Wendy - Dic! Watch yourself...

Dic - A dou fys i ti hefyd, y pwrsyn!
 Wendy - Dere. Beth am fynd nol i'r hostel?
 Dic - Na. Wy isie gweld y Big Leaves yn chware...
 Wendy - Gweld y Big Leaves? Ti ddim yn gallu gweld y palmant, pal...
 Dic - A wy isie rhagor o gwrw...The night is young...
 Wendy - Cym on then...Well i ti a fi ddechre cerdded...
 Dic - Na! Wy'n mynd i ga'l lifft lan y tyle...
 Wendy - Dic, roiff neb lifft i ti...
 Dic - Hei! Stopia!
 Wendy - Paid! Ti'n pissed...
 Dic - Weles di hwnna? Weles di fe?
 Wendy - Pwy?
 Dic - Y dyn 'na'n y car 'na? Y radiographer newydd...Y boi 'na o Cleveland...Ti'n gwbod...Beth yw 'i enw fe 'fyd...?
 Wendy - Beth am fynd nol i fflat ti? Ble ti'n byw?
 Dic - Pam na'th e ddim stopo i roi lifft i ni? Na'th e ngweld i...
 Wendy - Ddim fe oedd e...
 Dic - Fe oedd e – weles i fe...
 Wendy - Oes rhaid i ti fod cweit mor stropi?
 Dic - O.K. Y car nesa' 'ma nawr. Dere. I ganol yr hewl. Stopwn ni fe...
 Wendy - Paid!
 Dic - Wendy – dere!
 Wendy - Dic! Dere nol!
 Dic - Stopa!

Golygfa 4

Jenny - Watshia fo! Watshia fo! Arwyn!
 Arwyn - E...? Beth? Beth ddigwyddodd?
 Jenny - Rhyw ddyn oedd o...O, rargol fawr! Be ti 'di neud?
 Arwyn - Pa ddyn? O ble dda'th e...? E?
 Jenny - Chdi oedd ddim yn canolbwyntio!
 Arwyn - Fe na'th neido reit o fla'n y car!
 Jenny - Ddeudis i fod ti 'di blino'n, do?
 Arwyn - Oedd e'n gall, gwed?
 Jenny - Stop! Stopia'r car, Arwyn! Stopia!

Synopsis

Arwyn and Jenny eventually got under way following their puncture. Jenny was very concerned that Arwyn insisted on driving after he'd been drinking during the flight home. Arwyn dismissed her plea

Dic was enjoying himself in a local pub with all the young students who had arrived in town. He was busy getting to know the young nurse Wendy. At the end of the evening Dic was the worse for wear and tried to wave down cars in order to get a lift back home. He was knocked down by the car driven by Arwyn Saunders.

Test yourself

1. Translate 'Where on earth is the AA man?' into Welsh
 - a) Ble mae'r dyn AA?
 - b) **Ble yn y byd mawr mae'r dyn AA?**
 - c) Ble roedd y dyn AA?
2. Translate 'When did we return?' into Welsh
 - a) Pryd cyrhaeddodd ni'r maes awyr?
 - b) Pryd gadawon ni'r ty?
 - c) **Pryd cyrhaeddodd ni'nôl?**
3. Which of the following translates as 'to last longer'?
 - a) byw yn hirach
 - b) **para'n hirach**
 - c) gweithio'n hwyrach
4. What's the Welsh in North Wales for 'small wonder'?
 - a) **sdim rhyfedd**
 - b) sdim pwynt
 - c) sdim amser
5. What's the Welsh verb for 'to concentrate'?
 - a) pwyntio
 - b) canmol
 - c) **canolbwyntio**
6. How could we translate the Welsh phrase; 'I will have to'?
 - a) roedd rhaid i fi
 - b) **fydd rhaid i fi**
 - c) roedd rhaid i chi